



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth  
Swyddfa'r Cyngor  
CAERNARFON  
Gwynedd  
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENSIYNAU**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 25AIN TACHWEDD, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**NODER**

**\*I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 18 Tachwedd 2024)

## **PWYLLGOR PENSIYNAU**

### **AELODAETH (9)**

#### **Plaid Cymru (4)**

Y Cynghorwyr

Iwan Huws  
Ioan Thomas

R Medwyn Hughes

Elin Hywel

#### **Annibynnol (2)**

Y Cynghorwyr

John Pughe Roberts

John Brynmor Hughes

#### **Llafur / Rhyddfrydol (1)**

Y Cyngorydd Stephen Churchman

#### **Aelodau Cyfetholedig (2)**

Cyngorydd Robin Wyn Williams  
Councillor Goronwy Owen Edwards

Cyngor Sir Ynys Môn  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

#### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

5 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 16 Medi 2024 fel rhai cywir

## 5. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

11 - 60

I dderbyn a nodi'r wybodaeth

## 6. FFORWM BUDDSODDI STRATEGOL BUDDION DIFFINEDIG

61 - 62

Gofynnir i'r Pwyllgor i ystyried a derbyn y wybodaeth

## 7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff Paragraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol( yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol awdurdod cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn amhriodol o ran buddiannau cydnabyddedig trydydd bartïon ac yn gallu tansellio hyder i ddod a gwybodaeth ymlaen gerbron y Cyngor a felly gallu'r Cyngor i wneud penderfyniadau ar ran y gronfa. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau gwerth am arian a'r allbwn cyfansawdd gorau ac felly am y rhesymau yma mae'r materion yn gaeedig er y budd cyhoeddus.

**8. GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO- ADRODDIAD  
YMGYSYLLTU 01.04.2024 - 30.06.2024**

I ystyried yr adroddiad

(copi i'r Aelodau yn unig).

## PWYLLGOR PENSIYNAU 16-09-24

### Presenoldeb:

### Cynghorwyr:

Stephen Churchman, Richard Medwyn Hughes (Cadeirydd), Elin Hywel, John Pughe Roberts, Ioan Thomas a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

### Swyddogion:

Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

### Eraill a wahoddwyd:

Ned Michael (Aelod Bwrdd Pensiwn – arsylwi)  
Yvonne Thomas (Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru)  
Richard Warden (Hymans Robertson)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Goronwy Edwards (Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy), John Brynmor Hughes ac Iwan Huws

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

### 3. MATERION BRYN

Dim i'w nodi

### 4. COFNODION

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2024 fel rhai cywir.

### 5. DIWEDDARIAD RISG ARIANNU A CHYNLLUNIO AR GYFER PRISIAD 2025

Croesawyd Richard Warden (Hymans Robertson) i'r cyfarfod.

Mewn ymateb i'r gwaith cynllunio sydd angen ei wneud ar gyfer prisiad 2025, cyflwynwyd gwybodaeth gan actiwari'r Gronfa, Hymans Robertson, oedd yn canolbwyntio ar risgiau cyllid yn yr amgylchedd presennol, yr opsiynau sydd ar gael i reoli'r risgiau hynny a'r manteision sydd i'w cael ar unrhyw gyfleoedd ym mhrisiad 2025.

Diolchwyd am y cyflwyniad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag ystyriaethau atebolrwydd i lefelau priodol o dwyll, nodwyd bod senarios atebolrwydd ased yn cael eu creu fel bod sefyllfaoedd posib yn

cael eu hystyried i reoli risg a gwella perfformiad. Ategwyd bod 'sioc mewn asedau', fyddai'n awgrymu patrwm unigryw o symudiadau pris asedau, hefyd yn cael ei weithredu fel modd o edrych ar fodolau posib mewn ymateb i risgiau o fewn amgylchedd heriol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â rheoli risg a'r hyn y gall y Gronfa ei wneud i baratoi ar gyfer prisiad 2025, ac os oedd adnoddau digonol ar gyfer cwblhau'r gwaith, nodwyd bod atebolrwydd asedau yn rhan o'r prisiad ac y byddai unrhyw ganlyniadau yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor.

## **PENDERFYNWYD:**

### **Derbyn a nodi'r wybodaeth**

## **6. CYFRIFON TERFYNOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2024 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL**

Croesawyd Yvonne Thomas (Archwilio Cymru) i'r cyfarfod

Cyflwynwyd adroddiad ynghyd a Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd 2023/24 (ôl archwiliad), gan y Rheolwr Buddsoddi oedd yn darparu manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 31ain 2024. Atgoffwyd yr Aelodau bod drafft o'r cyfrifon wedi eu cyflwyno i gyfarfod 17eg Mehefin 2024 ac er nad oedd newidi i'r cyfrifon craidd, amlygwyd dau newid yn y nodiadau yn dilyn archwiliad gan Archwilio Cymru. Tynnwyd sylw at Nodyn 15 - Hierarchaeth Gwerth Teg, ble mae categori eiddo wedi symud o lefel 2 i lefel 3, a hynny mewn ymateb i sut mae'r rheolwyr buddsoddi yn categoreiddio'r buddsoddiadau. Yn ogystal, tynnwyd sylw at newid i Nodyn 23 - Trafodion Partïon Cysylltiedig / Prif Bersonél Rheoli, ble gwelwyd bod Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau bellach yn cael ei gynnwys fel un o'r prif bersonél rheoli.

Gwahoddwyd Yvonne Thomas (Archwilio Cymru) i gyflwyno adroddiad 'ISA260'. Adroddwyd bod yr archwilwyr yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamed ar gyfrifon eleni, unwaith y byddai'r Llythyr Cynrychiolaeth wedi ei arwyddo. Eglurwyd na all archwilwyr fyth roi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi'u datgan yn gywir ond yn hytrach yn gweithio i lefel o 'berthnasedd'. Pennwyd lefel perthnasedd o £30.744 miliwn ar gyfer archwiliad eleni i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a all arwain fel arall at gamarwain rhywun sy'n defnyddio'r cyfrifon. Cyfeiriwyd eto at y camddatganiad yn y cyfrifon gwreiddiol (Nodyn 15 – Hierarchaeth Gwerth Teg; categori eiddo wedi symud o lefel 2 i lefel 3) a nodwyd bod hyn bellach wedi ei gywiro gan y Rheolwyr.

Nodwyd bod y wybodaeth a gyflwynwyd o ansawdd uchel ac yn bositif iawn - yn adlewyrchiad da o'r trefniadau da sydd o fewn yr Adran Gyllid a diolchwyd i'r Swyddogion am y cydweithio da.

Diolchwyd i'r Archwilwyr am eu cydweithrediad a'u gwaith trylwyr. Gwerthfawrogwyd ymroddiad a chywirdeb y gwaith a diolchwyd i'r Rheolwr Buddsoddi a'r tîm am baratoi'r cyfrifon. Ategwyd bod yr adroddiad yn un calonogol a phositif a bod canlyniad yr archwiliad yn amlygu gwaith da'r swyddogion.

## **PENDERFYNWYD**

- **Derbyn y wybodaeth**
- **Nodi adroddiad ISA 260 gan Archwilio Cymru, a derbyn sylwadau'r archwilwyr**
- **Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd ôl-archwiliad ar gyfer 2023/24**
- **Awdurdodi'r Cadeirydd a'r Swyddog.151 i ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth (yn electroneg)**

## **7. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2024**

Cyflwynwyd adroddiad (drafft) gan y Rheolwr Buddsoddi yn manylu ar weithgareddau'r Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024. Nodwyd bod fformat yr Adroddiad Blynyddol yn unol â chanllawiau CIPFA ac yn cynnwys manylder aelodaeth y Pwyllgor a'r Bwrdd Pensiwn, gweinyddiaeth, buddsoddiadau, perfformiad ariannol, adroddiad yr actiwari, cyfrifon, a'r datganiadau cyfathrebu sydd gan y Gronfa Bensiwn. Amlygwyd, yn wahanol i adroddiadau blynyddol blaenorol nad oedd datganiadau buddsoddi cyllido a llywodraethu wedi eu cynnwys a hynny i osgoi dogfen swmpus. Yn hytrach bydd doler ar gyfer y datganiadau yn yr adroddiad.

Eglurwyd bod y ddogfen wedi cael ei hadolygu fel rhan o archwiliad y cyfrifon gan Archwilio Cymru ac y bydd y fersiwn derfynol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Blynyddol y Gronfa Bensiwn ddiwedd mis Tachwedd.

Diolchwyd am yr adroddiad.

### **PENDERFYNWYD**

**Derbyn a nodi Adroddiad Blynyddol (drafft) Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer 2023/24**

## **8. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU (PPC)**

Amlygodd y Rheolwr Buddsoddi bod yr adroddiad bellach yn un rheolaidd sy'n cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ar waith PPC. Eglurwyd bod yr adroddiad yn cysoni'r wybodaeth mae pob cronfa yng Nghymru yn ei dderbyn ynghyd a chynnwys penderfyniadau'r Cydbwyllgor Llywodraethu a diweddariad chwarterol safonol. Tynnwyd sylw at drafodaeth yng nghyfarfod mis Gorffennaf 2024 o'r Cydbwyllgor oedd yn cynnwys diweddarau'r Cynllun Busnes Safonol, adolygu'r gofrestr risg a pholisïau perthnasol.

Cyfeiriwyd at ddiweddariad y Gweithredwr, sydd yn rhoi cip olwg ar ystod lawn is-gronfeydd buddsoddi PPC ar 31 Mawrth 2024 gyda Cronfa Bensiwn Gwynedd bellach wedi pwlio mewn 8 allan o'r 11 is-gronfa gyda 85% o Gronfa Gwynedd wedi'i bwlio gyda'r Bartneriaeth.

Adroddwyd bod y flwyddyn ariannol yma wedi bod yn un calonogol gyda buddsoddiadau ecwiti yn perfformio yn dda, gyda marchnadoedd America, Ewrop a Siapan ar ei lefel uchaf erioed, a hyn wedi bwydo mewn i werth Cronfa Bensiwn Gwynedd ar ei uchaf a tynnwyd sylw at fanylion perfformiad pob is-gronfa ecwiti ac incwm sefydlog. Cyfeiriwyd at gyflwyniad a gafwyd gan Schrodgers Capital, sef dyranwr ecwiti preifat y Bartneriaeth ac eglurwyd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi £2.2m ar 31 Mawrth 2024, gyda bwriad o gynyddu'r swm yma yn sylweddol dros amser.

Diolchwyd am yr adroddiad

### **PENDERFYNWYD**

**Derbyn a nodi'r wybodaeth**

## **9. RHEOLAETH TRYSORLYS 2023/24**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor 2023/24, yn erbyn y strategaeth a gymeradwywyd gan y Cyngor

Llawm Mawrth yr 2il 2023. Adroddwyd bod y flwyddyn wedi bod yn flwyddyn brysur a llewyrchus iawn i weithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor wrth i'r gweithgaredd aros o fewn y cyfyngiadau a osodwyd. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw fethiant i ad-dalu gan y sefydliadau roedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda nhw.

Adroddwyd bod £3.5m o log wedi ei dderbyn ar fuddsoddiadau sydd yn uwch na'r £3.2m a oedd yn y gyllideb. Nodwyd bod yr incwm llog yma yn cael ei rhannu gyda'r Gronfa Bensiwn ar sail balans dyddiol a derbyniodd y Gronfa Bensiwn £1.2 miliwn o incwm yn y flwyddyn dan sylw.

Adroddwyd, yng nghyd-destun gweithgareddau buddsoddi, bod y Cyngor wedi parhau i fuddsoddi gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu, Cronfeydd Marchnad Arian, Cronfeydd wedi'i pwlio, Awdurdodau Lleol a Swyddfa Rheoli Dyledion. Nodwyd bod y cronfeydd yn gyson gyda'r math o fuddsoddiadau sydd wedi eu gwneud ers nifer o flynyddoedd bellach.

Yng nghyd-destun adroddiad cydymffurfiad a dangosyddion, adroddwyd bod yr holl weithgareddau wedi cydymffurfio'n llawn gyda chod ymarfer CIPFA a strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor - hynny yn newyddion da, ac yn dangos bod rheolaeth gadarn dros yr arian. Cyfeiriwyd at y dangosyddion lle amlygwyd bod pob dangosydd a osodwyd yn cydymffurfio â'r disgwyl heblaw un (Datguddiad Cyfraddau Llog). Eglurwyd bod y dangosydd yma wedi ei osod yn amodau llog isel Mawrth 2023 ac felly'n rhesymol bod y symiau mor wahanol.

Diolchwyd am yr adroddiad

## **PENDERFYNWYD**

### **I dderbyn a nodi'r wybodaeth**

## **10. ASESIAID GWYBODAETH CENEDLAETHOL HYMANS ROBERTSON**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn darparu Gwybodaeth am yr Asesiad Gwybodaeth Cenedlaethol sydd yn adnodd gwerthfawr wedi ei ddatblygu gan Hymans Robertson i randdeiliaid i wella eu dealltwriaeth a meddu gwybodaeth angenrheidiol i lywio cymhlethdodau cynlluniau pensiwn. Amlygwyd y byddai'r asesiad yn rhoi cipolwg i'r gronfa ar lefelau cyd-wybodaeth y Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau yn ogystal â meincnodi sgoriau yn erbyn Cronfeydd eraill fydd wedi cymryd rhan. Nodwyd bod yr asesiad yn cynnwys with maes allweddol ar gyfer cyrraedd safon llywodraethu da a bod yr asesiad mewn ffurf holiadur ar-lein.

Ategwyd y bydd y canlyniadau'n ddefnyddiol ar gyfer creu cynlluniau hyfforddi wedi eu targedu ar gyfer yr Aelodau i'r dyfodol ac anogwyd pawb i gymryd rhan.

## **PENDERFYNWYD**

### **Nodi cynnwys yr adroddiad**

**Annog holl Aelodau'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau i gymryd rhan yn yr asesiad**

## **11. DYDDIADAU CYNADLEDDAU 2025**

Cyflwynwyd adroddiad yn rhestru dyddiadau cynadleddau pensiynau ar gyfer 2024. Nodwyd bod y cynadleddau yn rhoi cyfle i'r Aelodau ehangu eu gwybodaeth a thrafod materion cyfoes. Gofynnwyd yr Aelodau i ystyried y dyddiadau a datgan diddordeb i'r



Rheolwr Buddsoddi yn y digwyddiadau hynny oedd yn gyfleus iddynt. Ategwyd bod bwriad ffurfioli'r rhestr mynychu gan osod trefn i geisio tegwch a chynrychiolaeth deg.

Diolchwyd am yr adroddiad.

#### **PENDERFYNWYD**

**Cymeradwyo'r rhestr dyddiadau**

**Derbyn trefniadau ffurfioli proses mynychu cynadleddau**

### **12. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Paragraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiadau yn benodol ynglŷn â phroses gaffael arfaethedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r Cyngor a'i bartneriaid drwy danseilio cystadleuaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau. Am y rhesymau hyn mae'r materion yn gaeedig er y budd cyhoeddus.

### **13. PROSES A CHANLYNIAD TENDR APWYNTIO YMGYNGHORYDD BUDDSODDI**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn amlinellu'r broses tendro a gynhaliwyd ar gyfer ymgynghorydd buddsoddi ar gyfer y Gronfa. Nodwyd bod pedwar cwmni wedi ceisio am y cytundeb yma ac eglurwyd, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, bod y penderfyniad wedi ei ddirprwyo i swyddogion y Cyngor.

Trafodwyd cynnwys yr adroddiad gan amlygu cynigion a pherfformiad y pedwar cwmni. Daeth y swyddogion i'r penderfyniad i ail-benodi Hymans Robertson ar gyfer y gwaith gyda chytundeb saith mlynedd yn dechrau 01-09-24.

#### **PENDERFYNWYD**

**Derbyn a nodi'r wybodaeth**

**Nodi canlyniad y weithdrefn caffael**

### **14. PROSES A CHANLYNIAD TENDR GWASANAETHAU ACTIWARAIDD, BUDD-DALIADAU A LLYWODRAETHU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn amlinellu'r broses tendro a gynhaliwyd ar gyfer penodi actiwari newydd ar gyfer y Gronfa. Nodwyd bod dau gwmni wedi ceisio am y cytundeb yma ac eglurwyd, bod y pwyllgor gwerthuso wedi asesu'r ddau gynnig yn erbyn y meini prawf sefydledig.

Trafodwyd cynnwys yr adroddiad gan amlygu cynigion a pherfformiad y ddau gwmni. Daeth y pwyllgor gwerthuso i'r penderfyniad i ail-benodi Hymans Robertson ar gyfer y gwaith gyda chytundeb saith mlynedd yn dechrau 01-09-24.

## **PENDERFYNWYD**

**Derbyn a nodi'r wybodaeth  
Nodi canlyniad y weithdrefn caffael**

### **15. GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO – ADRODDIAD YMGYSYLLTU 01.01.2024 - 31.03.2024**

Cyflwynwyd adroddiad chwarterol yn crynhoi'r gwaith mae Robeco (Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC) yn gyflawni ar ran y Gronfa Bensiwn, gan gynnwys y gwaith ymgysylltu.

Trafodwyd cynnwys yr adroddiad a mynegwyd pryder gan yr Aelodau am safon gwaith ymgysylltu ac ymgynghori'r cwmni. Mewn ymateb nodwyd bod bwriad, wrth lunio cytundebau i'r dyfodol, bod PPC am sicrhau bod elfen ragweithiol yn rhan o'r cyfrifoldebau ymgysylltu, ynghyd a gofynion cyflwyno gwybodaeth glir a dealladwy. Nodwyd bod angen i PPC adolygu trefniadau ymateb i'r wybodaeth sydd yn cael ei gyflwyno gan Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu i wneud y gorau o'r berthynas.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben 15:15

**CADEIRYDD**

CYFARFOD	<b>PWYLLGOR PENSIYNAU</b>
DYDDIAD	<b>25 TACHWEDD 2024</b>
TEITL	<b>DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU</b>
PWRPAS	<b>Derbyn a nodi diweddariad chwarterol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru</b>
ARGYMELLIAD	<b>DERBYN A NODI Y WYBODAETH</b>
AWDUR	<b>DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI</b>

---

## 1. CYFLWYNIAD

Mae hwn yn adroddiad rheolaidd sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau ar y gwaith a wneir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PCC) ar ran yr wyth cronfa CPLIL yng Nghymru.

Mae PPC bellach wedi'i hen sefydlu, gyda Waystone fel gweithredwr i ddarparu gwasanaethau a reoleiddir gan yr FCA a Russell Investments sy'n darparu opsiynau buddsoddi ar gyfer asedau rhestredig. Northern Trust yw'r ceidwad byd-eang penodedig. Hymans Robertson yw'r cynghorydd llywodraethu a goruchwylio ac mae Robeco yn darparu gwasanaethau pleidleisio ac ymgysylltu i PPC yn unol â'i gyfrifoldebau a'i ymrwymadau stiwardiaeth.

## 2. DIWEDDARIAD CHWARTEROL CYD- BWYLLGOR LLYWODRAETHU

Cynhaliwyd cyfarfod y Cydbwyllgor Llywodraethu (CLI), sef corff gwneud penderfyniadau y Bartneriaeth, yn ffurfiol ar 18 Medi 2024. Mae'r awdurdod lletya wedi darparu crynodeb o'r eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn. Adolygwyd y Cynllun Busnes ar gyfer 2024/25 a gellir ei weld yn Atodiad 2.

## 3. DIWEDDARIAD GWEITHREDWR

Mae copi o'r diweddariad chwarterol diweddaraf gan y gweithredwr wedi'i atodi yn Atodiad 3.

Mae'r diweddariad yn rhoi cipolwg o'r ystod lawn o is-gronfeydd buddsoddi PPC ar 30 Mehefin 2024.

Ar hyn o bryd mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn buddsoddi mewn wyth o'r un ar ddeg is-gronfeydd ac ar 30 Mehefin 2024 roedd y rhain fel a ganlyn:

- **Cyfleoedd Byd-Eang - £441.1m**
- **Twf Byd- Eang- £412.9m**
- **Marchnadoedd Datblygol - £62.0m**
- **Goddefol Byd-Eang - £444.8m**
- **Credyd Aml Ased - £228.9m**
- **Bond Dychwelyd Absoliwt- £431.9m**

- **Cronfa Credyd Byd-Eang - £223.1m**
- **Cronfa Ecwiti Cynaliadwy- £319.6m**

#### **4. ADRODDIADAU PERFFORMIAD FEL AR 30 MEHEFIN 2024**

Mae'r adroddiadau perfformiad i'w gweld yn atodiad 4.

Cododd ecwiti byd-eang tra bod marchnadoedd incwm sefydlog wedi llusgo yn yr ail chwarter. Roedd enillion mewn marchnadoedd ecwiti yn fwy cymedrol o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol. Dargyfeiriodd y marchnadoedd gyda Asia Pacific ond am Siapan, marchnadoedd datblygol, ecwiti Unol Daleithiau a'r DU yn perfformio'n dda. Ar y llaw arall, fe wnaeth Japan ac Ewrop ond am DU oedi, gan gofnodi colledion dros y cyfnod. Dwysawyd ansicrwydd gwleidyddol ymhellach gan gyhoeddiadau annisgwyl yn yr etholiad yn y DU a Ffrainc ochr yn ochr â'r nifer anarferol o fawr o etholiadau byd-eang a drefnwyd eisoes eleni.

Cadwodd y Gronfa Ffederal a Banc Lloegr y cyfraddau llog heb eu newid yn eu cyfarfodydd polisi. Manteisiodd ecwiti'r Unol Daleithiau o enillion chwarterol cadarn, er bod rhai enillion yn cael eu gyrru gan garfan gul o stociau technoleg. Yn y cyfamser, gorfododd cryfder yr economi a chwyddiant ystyfnig uchel addasiad cyflym i ddisgwyliadau cyfraddau llog. Cododd y cynnyrch ar 10 mlynedd o Stociau Trysorlys yr Unol Daleithiau 20 pwynt sylfaen i 4.40%. Fe wnaeth ecwiti'r DU gyrraedd uchafbwyntiau newydd wrth i fuddsoddwyr gael eu hannog ar ôl i'r economi adael y dirwasgiad ysgafn y llynedd. Er bod chwyddiant yn siomedig ym mis Ebrill, gostyngodd ffigur mis Mai i'r isaf ers 2021 (2.0%). Fodd bynnag, ysgogodd cyhoeddiad annisgwyl yr etholiad cyffredinol fuddsoddwyr i addasu eu disgwyliad o doriad cyfradd llog cychwynnol o fis Mehefin i fis Medi neu fis Tachwedd, gan anfon cynnyrch gilt yn uwch. Cynyddodd meincnod y cynnyrch gilt 10 mlynedd 24 bps i 4.17%. Mewn mannau eraill, daliodd cyfradd Banc Canolog Ewrop ym mis Ebrill ond gostyngodd ei gyfradd meincnod 25 bps ym mis Mehefin, ei doriad cyfradd gyntaf mewn pum mlynedd. Cynyddodd y cynnyrch ar fwndeli Almaeneg 10 mlynedd 20 bps i 2.50%.

Mae perfformiad yr is-gronfeydd y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn buddsoddi ynddynt yn cael eu monitro gan swyddogion, ac fel rhan o'r adolygiad buddsoddi chwarterol gan Hymans Robertson ac nid oes unrhyw bryderon wedi eu codi. Mae Russell Investments hefyd yn asesu'r rheolwyr yn barhaus yn eu portffolio a byddant yn lleihau, yn cynyddu neu'n dileu eu daliadau i geisio gwella perfformiad tymor hir yr is-gronfa. Ar hyn o bryd mae hyn yn cael ei wneud o fewn yr is-gronfa Twf Byd-eang gyda newid yn y broses o ddewis rheolwyr.

#### **5. DIWEDDARIAD MARCHNADOEDD PREIFAT**

Mae'r rhan fwyaf o'r prif raglenni buddsoddi yn y farchnad breifat bellach wedi lawnsio –Isadeiledd, Credyd Preifat ac Ecwiti Preifat. Mae rheolwyr Eiddo wedi'u penodi, ar hyn o bryd yn edrych ar faterion cyfreithlon o sefydlu rhaglenni buddsoddi Eiddo.

Darparodd Russell Investments ddiweddariad cynnydd Credyd Preifat i'r PPC yn y Cyd- Bwyllgor diweddaraf a mae'r cyflwyniad ynghlwm yn Atodiad 5.

## 6. CAFFAEL

Mae 2 ymarfer caffael newydd ar y gweill, gyda'r nod o'r adroddiadau argymhellion yn mynd i CBLI Rhagfyr 2024 i'w cymeradwyo.

- Ymgynghorydd Goruchwylio – Mae'r contract presennol gyda Hymans Robertson yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024.
- Darparwr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu – Mae'r contract presennol gyda Robeco yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025.

## 7. GALW AM DYSTIOLAETH

Ym mis Medi 2024, mae'r Canghellor wedi lansio adolygiad pensiynau nodedig i hybu buddsoddiad, cynyddu enillion cynilo a mynd i'r afael â gwastraff yn y system pensiynau. Mae'r Canghellor wedi penodi'r Gweinidog Pensiynau i arwain yr adolygiad. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar gynlluniau gweithle cyfraniadau wedi'u diffinio a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Yn ei gamau cychwynnol bydd yr adolygiad yn ystyried tystiolaeth ar ystod o gwestiynau sydd i'w gweld yma: [Pensions Investment Review: Call for Evidence - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/consultations/pensions-investment-review-call-for-evidence) Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd, Partneriaeth Pensiwn Cymru a nifer o randdeiliaid allweddol y Gronfa wedi ymateb i'r cam cychwynnol hwn. Gellir dod o hyd i'r ymateb gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yn Atodiad 6.

Mae swyddogion wedi cael cyfarfod gyda'r Trysorlys a'r MHCLG a oedd yn gadarnhaol iawn, ac mae cyfarfod gyda'r Gweinidog hefyd wedi'i drefnu.

## 8. ARGYMHELLIAD

Derbyn a nodi'r wybodaeth.

## Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) – Diweddariad CBLI

Dyddiad cyfarfod CBLI: Dydd Mercher, 18 Medi 2024

Lleoliad: Aml-leoliad, gan Clwyd

Cadeirydd: Cyng Elwyn Williams, Dyfed

Is Gadeirydd: Cyng Medwyn Hughes, Gwynedd

Eitem	Manylion																
Diweddariad yr Awdurdod Lletya	<p>Darparodd Anthony Parnell o'r Awdurdod Lletya ddiweddariad mewn perthynas â'r gwaith sydd wedi'i gwblhau ers cyfarfod diwethaf y CBLI a chamau/blaenoriaethau nesaf PPC.</p> <p>Soniodd Anthony fod PPC wedi pwlio tua 74% o'i asedau ar 31 Mawrth 2024 – mae cyfanswm buddsoddiadau PPC yn £25bn, gyda £18.5bn (gan gynnwys buddsoddiadau goddefol o £5.2bn) wedi'i bwlio a £6.5bn heb ei bwlio.</p> <table border="1"><tbody><tr><td>Caerdydd a Bro Morgannwg</td><td>86%</td></tr><tr><td>Clwyd</td><td>26%</td></tr><tr><td>Dyfed</td><td>80%</td></tr><tr><td>Torfaen</td><td>74%</td></tr><tr><td>Gwynedd</td><td>85%</td></tr><tr><td>Powys</td><td>69%</td></tr><tr><td>RCT</td><td>83%</td></tr><tr><td>Abertawe</td><td>70%</td></tr></tbody></table>	Caerdydd a Bro Morgannwg	86%	Clwyd	26%	Dyfed	80%	Torfaen	74%	Gwynedd	85%	Powys	69%	RCT	83%	Abertawe	70%
Caerdydd a Bro Morgannwg	86%																
Clwyd	26%																
Dyfed	80%																
Torfaen	74%																
Gwynedd	85%																
Powys	69%																
RCT	83%																
Abertawe	70%																

	<p>Dyddiadau CBLI sydd i ddod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 10 Rhagfyr 2024 – rhithiol drwy Zoom</li> <li>• 12 Mawrth 2025 – Aml-leoliad, gan Abertawe</li> <li>• 16 Gorffennaf 2025 – rhithiol drwy Zoom</li> <li>• 17 Medi 2025 – Aml-leoliad, gan Torfaen</li> <li>• 8 Rhagfyr 2025 – rhithiol drwy Zoom</li> </ul> <p>10 Mawrth 2026 – Aml-leoliad, gan Caerdydd</p> <p>Cyflwynodd Anthony ddiweddariad Cynllun Busnes 2024/25 hefyd ar 30 Mehefin 2024 (ynghlwm).</p>
Cofrestr Risg Adolygiad Ch3 2024	<p>Y OWG sy'n gyfrifol am gynnal Cofrestr Risg PPC ac adrodd yn ôl unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r CBLI ar sail chwarterol. Mae gan yr OWG Is-Grŵp Risg pwrpasol i gymryd perchnogaeth o'r Gofrestr Risg ac adolygiadau chwarterol o'r ddogfen.</p> <p>Yn ystod Ch3 2024, cynhaliwyd adolygiad o'r Risgiau Hyfforddiant ac Adnoddau a Chyfathrebu. Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol.</p> <p>Cyflwynodd Hymans yr adran ddiweddaraf o'r Gofrestr Risg a gymeradwywyd gan y JGC. Mae'r Gofrestr Risg wedi'i llwytho i fyny ar wefan PPC. Bydd yr adolygiad nesaf yn cael ei gynnal yn Ch4 2024 a bydd yn canolbwyntio ar Risgiau yr Adran Fuddsoddi.</p>
Diweddariad Gweithredwr	<p>Cyflwynodd Waystone eu hadroddiad diweddarau chwarterol ar 30 Mehefin 2024 (ynghlwm). Mae hyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am is-gronfeydd PPC a gweithgaredd corfforaethol ac ymgysylltu.</p>
Adroddiadau Perfformiad 30 Mehefin 2024	<p>Cyflwynodd Russell Investments bapur crynodeb perfformiad Ch2 2024 (ynghlwm) yn crynhoi perfformiad pob is-gronfa ACS unigol ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2024.</p>
Diweddariad Marchnad Preifat- Credyd Preifat	<p>Penodwyd Russell Investments yn Ddyranwr Credyd Preifat WPP ym mis Mawrth 2022, a lanswyd y rhaglen Buddsoddi mewn Credyd Preifat ym mis Ebrill 2023.</p>

	Darparodd Russell Investments ddiweddariad cynnydd Credyd Preifat i'r PPC (ynghlwm).
<b>Eitemau Eithriedig</b> – the following items were discussed during the non-public part of the meeting.	
Adroddiad Benthycia Stoc – 30 Mehefin 2024	Dechreuodd benthycia stoc yn Mawrth 2020 a cyflwynodd Northern Trust yr adroddiad Benthycia Stoc ar gyfer Chw2 2024 (chwarter i 30 Mehefin 2024).
Adroddiad Ymgysylltu Robeco – Chw2 2024	Ym Mawrth 2020 cafodd Robeco eu apwyntio yn Ddarparwr Pledleisio ac Ymgysylltu i ymgymryd â swyddogaethau Pleidleisio ac Ymgysylltu ar ran PPC. Dechreuodd Robeco eu gwasanaeth ymgysylltu ym mis Ebrill 2020, ac maent wedi darparu adroddiad ymgysylltu ar gyfer Ch2 2024. Y thema ymgysylltu a ddewiswyd ar gyfer y chwarter hwn oedd Pontio Hinsawdd a Trawsnewid Natur Sefydliadau Ariannol.
Buddsoddi Cyfrifol ac adroddiadau Risg Hinsawdd	Pob chwarter, mae Hymans Robertson yn cynhyrchu adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol & Risg Hinsawdd chwarterol ar gyfer is gronfeydd PPC.  Ar gyfer Chw2 2024 (chwarter yn dod i ben 30 Mehefin 2024), cynhyrchwyd adroddiadau ARB a MAC.  Cyflwynodd Hymans yr adroddiadau i aelodau'r CBLI.

Dolen gweddarlledu ar gyfer cyfarfod CBLI 18 Medi 2024 isod:

[Agenda for Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru on Dydd Mercher, 18fed Medi, 2024, 10.30 yb](#)

Gwefan PPC - [Cronfa Pensiwn Cymru | Cartref \(partneriaethpensiwncymru.org\)](#)

Cyfarfod nesaf:

- Dydd Mawrth, 10 Rhagfyr 2024 – Cyfarfod rhithiol





Cynllun Busnes  
Partneriaeth Pensiwn Cymru  
2024-2025  
Adolygiad Ch1  
(Ebrill i Mehefin 2024)

## Llywodraethu

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
<ul style="list-style-type: none"><li>Proses gaffael yr Ymgynghorydd Goruchwyliol</li></ul>	Yn mynd rhagddo	I'w gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2024
<ul style="list-style-type: none"><li>Proses gaffael darparwyr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu</li></ul>	Yn mynd rhagddo	I'w gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2024
<ul style="list-style-type: none"><li>Adolygiad blynyddol o bolisiâu a chynlluniau PPC</li></ul>	Parhaus	
<ul style="list-style-type: none"><li>Adolygiadau chwarterol o'r Gofrestr Risg</li></ul>	Parhaus	
<ul style="list-style-type: none"><li>Ymateb i unrhyw ymgynghoriadau cysylltiedig â chyfuno ac ymgymryd ag unrhyw newidiadau angenrheidiol o ganlyniad i ganlyniadau'r ymgynghoriad</li></ul>	Parhaus	

## Datblygiad parhaus i'r Is-gronfeydd

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
<ul style="list-style-type: none"><li>Lansio'r rhaglenni buddsoddi eiddo tirol</li></ul>	Yn mynd rhagddo	
<ul style="list-style-type: none"><li>Lansio 'vintages' Marchnad Breifat ychwanegol</li></ul>	Parhaus	
<ul style="list-style-type: none"><li>Ystyriaeth o ofynion Ffyniant Bro / gofynion effaith y Bartneriaeth</li></ul>	Parhaus	
<ul style="list-style-type: none"><li>Ymgynghori gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol ar yr angen am Is-gronfeydd pellach, adolygu a datblygu, fel bo'r angen</li></ul>	Parhaus	
<ul style="list-style-type: none"><li>Ystyried cyfleoedd Buddsoddi Lleol</li></ul>	Parhaus	

### Gwasanaethau Gweithredwr

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cwblhau proses caffael contract a gweithredu contract gweithredwr newydd</li> </ul>	Yn mynd rhagddo	Cytundeb newydd i ddechrau ym mis Rhagfyr 2024
<ul style="list-style-type: none"> <li>Goruchwylio llywodraethu y Gweithredwyr a'r Is-gronfa</li> </ul>	Parhaus	

### Buddsoddiadau ac Adrodd

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu a gweithredu adroddiadau Marchnadoedd Preifat</li> </ul>	Yn mynd rhagddo	Opsiynau adrodd yn cael eu hystyried ar gyfer marchnadoedd preifat
<ul style="list-style-type: none"> <li>Adroddiadau sy'n ymwneud â'r hinsawdd / TCFD</li> </ul>	Yn mynd rhagddo	Adroddiad sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn y broses o gael ei ddatblygu
<ul style="list-style-type: none"> <li>Adrodd ar y Cod Stiwardiaeth</li> </ul>	Yn mynd rhagddo	Adroddiad 2023/24 i fod i'w gyflwyno erbyn 31 Hydref 2024
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ystyried adroddiadau ychwanegol sy'n dangos ymrwymiad PPC i Fuddsoddi Cyfrifol</li> </ul>	Parhaus	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Adrodd, craffu a herio parhaus ar berfformiad yr Is-gronfeydd buddsoddi cyfrifol a risg hinsawdd</li> </ul>	Parhaus	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygiad perfformiad blynyddol o Is-gronfeydd PPC (Ecwiti ac Incwm Sefydlog)</li> </ul>		I'w adolygu yn Ch1 (Ionawr i Mawrth) 2025
<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu cyflwyniad gwasanaeth Russell Investment o ran cyflawni amcanion y Bartneriaeth ar draws yr Is-gronfeydd</li> </ul>	Yn mynd rhagddo	

<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymgysylltu parhaus ag Awdurdodau Cyfansoddol ynghylch safonau ESG /Buddsoddi Cyfrifol a'u huchelgeisiau hinsawdd</li> </ul>	Parhaus	
--	---------	--

### Cyfathrebu a Hyfforddiant

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Llunio Adroddiad Cynnydd Blynyddol PPC ar Fuddsoddi Cyfrifol</li> </ul>	Do	Adroddiad wedi'i gyflwyno yn y CBLI ym mis Gorffennaf 2024 ac wedi'i gyhoeddi ar y wefan
<ul style="list-style-type: none"> <li>Llunio cynllun hyfforddi blynyddol PPC</li> </ul>		I'w lunio yn Ch1 (Ionawr i Mawrth) 2025
<ul style="list-style-type: none"> <li>Llunio diweddariad blynyddol PPC</li> </ul>	Do	Cyhoeddwyd diweddariad blynyddol 2023/24 ym mis Awst 2024
<ul style="list-style-type: none"> <li>Llunio adroddiad blynyddol PPC</li> </ul>	Yn mynd rhagddo	Adroddiad blynyddol 2023/24 i'w gyhoeddi Hydref 2024

### Adnoddau, cyllideb a ffioedd

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygiad blynyddol o adnoddau a'r gallu i gynhyrchu</li> </ul>		I'w adolygu yn Ch1 (Ionawr i Mawrth) 2025
<ul style="list-style-type: none"> <li>Llunio cyllideb flynyddol PPC</li> </ul>		I'w lunio yn Ch1 (Ionawr i Mawrth) 2025
<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu a monitro ffioedd gweithredwr / darparwr allanol</li> </ul>	Parhaus	

## Cynllun Hyfforddi

Pynciau hyfforddi i gael eu cwblhau yn ystod 2024-25 yn unol â'r hyn a gymeradwywyd yng Nghynllun Hyfforddiant 2024-2025 a'r cynnydd hyd yma:

	Cwblhawyd	Sylwadau
<ul style="list-style-type: none"><li>Buddsoddiadau cyfun y Bartneriaeth</li></ul>	Do	18 Mehefin 2024
<ul style="list-style-type: none"><li>Trosolwg o ddiogelwch seibr ac ystyriaeth i'r Bartneriaeth</li></ul>	Do	18 Mehefin 2024
<ul style="list-style-type: none"><li>Polisiau - Polisi Buddsoddi Cyfrifol</li></ul>		Wedi'i amserlennu ar gyfer 18 Hydref 2024
<ul style="list-style-type: none"><li>Polisiau - Polisi Risg Hinsawdd</li></ul>		Wedi'i amserlennu ar gyfer 18 Hydref 2024
<ul style="list-style-type: none"><li>Polisiau - Polisi Stiwardiaeth</li></ul>		Wedi'i amserlennu ar gyfer 18 Hydref 2024
<ul style="list-style-type: none"><li>Buddsoddi Cyfrifol - Cynllunio iath Sero Net</li></ul>		Wedi'i amserlennu ar gyfer 28 Tachwedd 2024
<ul style="list-style-type: none"><li>Buddsoddi Cyfrifol - Metrigau Hinsawdd</li></ul>		Wedi'i amserlennu ar gyfer 28 Tachwedd 2024
<ul style="list-style-type: none"><li>Cynnydd Cronfeydd CPLIL eraill a Cyfleoedd i Gydweithio</li></ul>		
<ul style="list-style-type: none"><li>Unrhyw ddatblygiadau rheoleiddio / canllawiau newydd</li></ul>		

## Cyllideb

Adroddiad Monitro Cyllideb 2024-2025:

	<b>Cyllideb 2024-2025 £000</b>	<b>Rhagolygon 2024 – 2025 £000</b>	<b>Amrywiaethau 2024 - 2025 £000</b>
Awdurdod Lletya *	231	209	22
Ymgynghorwyr Allanol *	1,411	1,411	0
<b>CYFANSWM i'w ail-godi</b>	<b>1,642</b>	<b>1,620</b>	<b>22</b>
<hr/>			
Gwasanaethau Gweithredwr **	40,734	40,734	0
Gwasanaethau Dyranwr **	7,006	7,006	0
<b>CYFANSWM i'w ddidynnu o Werth Net yr Asedau</b>	<b>47,740</b>	<b>47,740</b>	<b>0</b>

*\*Ariennir costau'r Awdurdod Lletya a'r Ymgynghorydd Allanol gan bob un o wyth Awdurdod Cyfansoddol PPC yn gyfartal, ac fe ail-godir y costau hyn yn flynyddol.*

*\*\*Mae'r costau Gwasanaethau Gweithredwr / Dyranwr yn seiliedig ar gyfran pob Awdurdod Cyfansoddol fel canran o asedau'r Bartneriaeth ac fe'u didynnir yn uniongyrchol o Werth Net Asedau'r Awdurdod Cyfansoddol.*

## Buddsoddiadau

### Is-gronfeydd Ecwiti

#### Cronfa Twf Byd-eang

Rheolir gan: Link

Gwerth y Portffolio:  
£2 biliwn\*

#### Cronfa Cyfleoedd Byd-eang

Rheolir gan: Russell Investments

Gwerth y Portffolio:  
£2 biliwn\*

#### Cronfa Cyfleoedd y Deyrnas Gyfunol

Rheolir gan: Russell Investments

Gwerth y Portffolio:  
£0.6 biliwn\*

#### Cronfa Marchnadoedd Datblygol

Rheolir gan: Russell Investments

Gwerth y Portffolio:  
£0.6 biliwn\*

#### Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy

Rheolir gan: Russell Investments

Gwerth y Portffolio:  
£1.2 biliwn\*

### Is-gronfeydd Incwm Sefydlog

#### Cronfa Bondiau Adenillion Absoliwt

Rheolir gan: Russell Investments

Gwerth y Portffolio:  
£0.4 biliwn\*

#### Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang

Rheolir gan: Russell Investments

Gwerth y Portffolio:  
£0.5 biliwn\*

#### Cronfa Credyd Aml-ased

Rheolir gan: Russell Investments

Gwerth y Portffolio:  
£0.6 biliwn\*

#### Cronfa Credyd Byd-Eang

Rheolir gan: Russell Investments

Gwerth y Portffolio:  
£0.8 biliwn\*

#### Cronfa UK Credit

Rheolir gan: Link

Gwerth y Portffolio:  
£0.5 biliwn\*

### Marchnadau Preifat

#### Seilwaith – caeedig

Rheolir gan: GCM Grosvenor

#### Seilwaith - penagored

Rheolir gan: CBRE, IFM and Octopus

#### Credyd Preifat

Rheolir gan: Russell Investments

#### Ecwiti Preifat

Rheolir gan: Schroders Capital

\* Gwerth y portffolios ar y dyddiad lansio



Partneriaeth Pensiwn Cymru

<https://www.partneriaethpensiwncymru.org/>





Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth  
Pensiynau Cymru Adolygiad Ch2 2024 -  
18 Medi 2024



# Diweddariadau'r Farchnad





Ail-benodwyd Waystone Management (UK) Limited (WMUK) gan y Bartneriaeth fel Gweithredwr y Pŵl.

Mae Waystone Management (UK) Limited (WMUK) yn cynnal prosiect integreiddio llawn i fudo cyn-weithwyr LFSL i systemau WMUK (e.e. e-bost, y system AD a'r llwyfan Cyllid) cyn mis Hydref 2024. Mae WMUK yn cynnal adolygiad llawn o'r holl systemau a'r rheolaethau i sicrhau bod y prosesau'n parhau i fod y gorau yn eu dosbarth. Bydd llinell amser o ddigwyddiadau yn cael ei rhannu unwaith y dôt ar gael fel bod modd cynllunio unrhyw ddiweddariadau posib i'n cleientiaid yn unol â hynny gan eu cyflwyno yn raddol.





Mae cynllun busnes yr FCA yn edrych ar eitemau allweddol. Caiff diweddariad rheoleiddio llawn ei gyflwyno i'r Awdurdod Lletya yn fisol, ond gellir ei gael trwy gofrestru i'w dderbyn ar wefan Waystone. [UK/EU updates Archives - Waystone Compliance](#)

Teitl	Amseru	Effaith WMUK	Effaith WPP
Areithiau FCA ar reoli asedau	Ar unwaith	I'w nodi	Isel
Asesiad o Werth (AOV) - Diweddariad y diwydiant	Ar unwaith	Uchel	Uchel
FCA: Cydnerthedd gweithredol - dealltwriaeth a sylwadau ar gyfer cwmnïau	Ar unwaith	Uchel	Uchel
Y Rheoleiddiwr Pensiynau - arweiniad ar ddiogelwch seibr wedi ei ddiwygio i helpu i fynd i'r afael ag unrhyw fygythiad	Ar unwaith	Isel	Canolig
FCA: Tudalen y we wedi ei diweddarau ynglŷn â dadleniad cynaliadwyedd a system labelu a'r canllaw gwrth-'Greenwashing'terfynol ar y cais Gofyniad Datgelu Cynaliadwyedd (SDR) i Wasanaethau rheoli portffolio.	Ar unwaith	Isel	Canolig
Gofynion Datgelu Cynaliadwyedd (SDR): Diweddariad gweithredu 2024	Ar unwaith	Canolig	Canolig
Cyd-fap Trysorlys Ei Fawrhydi (HMT)/FCA i weithredu'r Gyfundrefn Cronfeydd Bamor (QFR) a throsglwyddo o Drefn Caniatâd Marchnata Dros Dro (TMPR)	Ar unwaith	I'w nodi	Canolig

## Trosolwg o Drydydd Partion Ch2-24

Gweithgaredd	Statws	Sylwadau
Asiantaeth Drosglwyddo – Northern Trust		Cychwynnodd adolygiad yr Asiantaeth Drosglwyddo ar ddiwedd Ch2 2024. Yr adolygiad i gynnwys yr holl swyddogaethau delio a phrosesu gan NT. (Gwaith maes wedi'i gynllunio ar gyfer mis Tachwedd 2024 wedi ei uno ag adolygiad arall), dyddiad i'w gadarnhau.
Gweinyddu'r Gronfa – Northern Trust		Cwblhawyd adolygiad o weinyddiaeth y Gronfa yn Ch1 2024. Ni adroddwyd am unrhyw ganfyddiadau o bwys ar draws y busnes, sy'n cynnwys swyddogaethau sy'n neilltuo ar gyfer PPC.  Adroddiad Drafft - Adroddiad wedi ei gyflwyno i Northern Trust i'w adolygu ac i dderbyn sylwadau, disgwylir i'r fersiwn derfynol gael ei chyflwyno ym mis Awst 2024.
Ymweliadau Diwydrwydd Dyladwy - Northern Trust		Cafodd Holiadur blynyddol ei lenwi yn Ch1-24, mae hwn yn dangos bod y gwerthwr yn cael ei asesu'n fisol yn erbyn lefelau gwasanaeth a dangosyddion perfformiad allweddol. Yn ogystal, mae'n gwirio bod ganddynt y gallu, y capasiti, y cadernid ariannol, a'r awdurdodiad/au cywir i gyflawni'r gwasanaethau sy'n cael eu hallanoli iddynt a'u bod yn parhau i gyflawni eu hymrwymiaid yn y contract.  Cyhoeddwyd yr Adroddiad Terfynol yn Ch2-24, gyda dau ganfyddiad sgôr canolig nad ydynt yn rhai WPP yn benodol. Y casgliadau i'w cyhoeddi gyda gwybodaeth reoli chwarterol.
Ymweliadau Diwydrwydd Dyladwy - Russell Investments		Dim ymweliadau wedi'u cynllunio yn y Chwarter hwn.

Status key:

-  Completed or already in place
-  On target;
-  Delay Expected;
-  Not Applicable

# GWERTH IS-GRONFEYDD Y BARTNERIAETH AR 30 MEHEFIN 2024

<b>Ecwitiau</b>	
<b>Cronfa</b>	<b>AUM</b>
Twf Byd-eang	£3,534,088,096
Cyfleoedd Byd-eang	£3,333,445,807
Cyfleoedd y DU	£736,475,156
Marchnadoedd Datblygol	£268,560,479
Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy	£1,582,290,626
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>£9,454,860,164</b>
<b>Incwm Sefydlog</b>	
<b>Cronfa</b>	<b>AUM</b>
Credyd Aml-ased	£734,919,140
Credyd Byd-Eang	£1,009,138,378
Bondiau Llywodraeth Byd-Eang	£484,859,340
Bond Enillion Absoliwt	£575,716,556
Credyd Sterling	£707,349,580
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>£3,511,982,994</b>
<b>Cyfanswm Buddsoddiadau Actif</b>	<b>£12,966,843,158 ar 30 Mehefin 2024</b>

# GWERTH IS-GRONFEYDD A CHANRAN PERCHNOGAETH Y BARTNERIAETH AR 30 MEHEFIN 2024


Enw'r gronfa	Gwynedd	Powys	Clwyd	Abertawe	Caerdydd	Torfaen	RHCT	Dyfed	Cyfanswm yr Is-gronfa
Cronfa Twf Byd-eang PPC WS	£412,949,712	£73,887,992			£172,586,733		£1,748,094,904	£1,126,568,755	£3,534,088,096
Cronfa Ecwitiau Cyfleoedd Byd-eang PPC WS	£441,058,748			£1,200,619,177	£543,212,762	£656,155,873	£492,399,247		£3,333,445,807
Cronfa Cyfleodd y DU PPC WS Cymru					£152,181,964	£584,293,192			£736,475,156
Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol PPC WS	£61,996,204	£15,806,721			£119,223,471	£71,534,083			£268,560,479
Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy PP Cymru WS	£319,632,801	£74,488,073	£346,184,809	£229,186,886	£143,243,172	£171,910,370	£114,602,256	£183,042,259	£1,582,290,626
Cronfa Credyd Aml-ased PP Cymru WS	£228,856,084	£33,464,763	£248,009,348	£67,392,254	£157,196,691				£734,919,140
Cronfa Credyd Byd-Eang PPC WS	£223,130,930	£27,031,921			£182,297,921	£254,535,034		£322,142,572	£1,009,138,378
Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang PPC WS					£232,454,392	£252,404,948			£484,859,340
Cronfa Bondiau Enillion Absoliwt PPC WS	£431,893,383	£72,197,884		£71,625,289					£575,716,556
Cronfa Credyd Sterling PPC WS							£707,349,580		£707,349,580
Cyfanswm yr Awdurdod Cyfansoddol	£2,119,517,862	£296,877,354	£594,194,157	£1,568,823,606	£1,702,397,106	£1,990,833,500	£3,062,445,987	£1,631,753,586	£12,966,843,158

Enw'r gronfa	Gwynedd	Powys	Clwyd	Abertawe	Caerdydd	Torfaen	RHCT	Dyfed
Cronfa Twf Byd-eang PPC WS	12%	2%			5%		49%	32%
Cronfa Ecwitiau Cyfleoedd Byd-eang PPC WS	13%			36%	16%	20%	15%	
Cronfa Cyfleodd y DU PPC WS Cymru					21%	79%		
Cronfa Credyd Aml-ased PP Cymru WS	31%	5%	34%	9%	21%			
Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol PPC WS	23%	6%			44%	27%		
Cronfa Credyd Byd-Eang PPC WS	22%	3%			18%	25%		32%
Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang PPC WS					48%	52%		
Cronfa Bondiau Enillion Absoliwt PPC WS	75%	13%		12%				
Cronfa Credyd Sterling PPC WS							100%	
Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy PP Cymru WS	20%	5%	22%	15%	9%	11%	7%	12%


# Braslun o'r Gronfa Mehefin 2024 - Ecwitiau

- Allwedd:
- Dyfed
  - Powys
  - Gwynedd
  - RhCT
  - Torfaen
  - Clwyd
  - Abertawe
  - Caerdydd


## Twf Byd-eang




## Cyfleoedd Byd-eang




## Cyfleoedd y DU



## Marchnadoedd Datblygol




## Ecwiti Actif Cynaliadwy




# Braslun o'r Gronfa Mehefin 2024 - Incwm Sefydlog


## Credyd Sterling




## Credyd Byd-Eang




## Credyd Aml-ased



## Bondiau Llywodraeth Byd-eang



## Bondiau Enillion Absoliwt



- Allwedd:
- Dyfed
  - Powys
  - Gwynedd
  - RhCT
  - Torfaen
  - Clwyd
  - Abertawe
  - Caerdydd

# Diweddariad ar Is-gronfeydd

## Lansio Cronfeydd a Newidiadau

	Gweithgaredd	Statws	Sylwadau
<b>Lansiadau a Newidiadau a Gwblhawyd</b>	N/a		N/a
	Ychwanegu Rheolwr Buddsoddi Newydd i'r Gronfa Twf Byd-eang, fel ychwanegiad at y Rheolwyr presennol	✓	<p>Bwriad i ychwanegu rheolwr newydd yn cael ei drafod gyda'r Awdurdod Lletya a Russell Investment a bydd diweddariad/cyfarfodydd pellach yn cael eu trefnu yn Ch2-24.</p> <p>Cadarnhaodd PPC bod papurau ychwanegol yn cael eu paratoi gan y RI i ystyried sefyllfa'r cronfeydd, gyda diweddariad yn cael ei ddarparu yn <b>y</b> Gweithgor Swyddogion (GS) ym mis Gorffennaf ble y cytunwyd y byddai'r RI yn cymryd y dasg o Reoli'r gronfa hon. Mae Trosglwyddiad y Prosiect wedi ei drefnu ynghyd â galwadau gyda dyddiad targed i gwblhau yn Ch-24.</p>
	Tynnu Artemis o'r Gronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy	✓	<p>Mae Artemis wedi cyhoeddi bod y tîm rheoli portffolio presennol wedi gadael. Roedd y strategaeth yma yn gyfrifol am £118m (neu 8.8% o Gronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy PP Cymru WS, ar 29 Rhagfyr 2023. RI i ddirwyn amlygiad i ben ar draws y mandad cyn gynted â phosib. RI yn cynllunio i ail-ddyrannu enillion yn gyfartal i ddwy strategaeth arall sy'n canolbwyntio ar dwf, Mirova a Neuberger Berman.</p> <p>Mae hyn wedi mynd drwy Llywodraethu a Gwasanaeth Adneuo WMUK, gan gymeradwyo'r newid. Bydd y symud yn dod i rym o'r 11 Gorffennaf 2024. Hysbysiad Buddsoddwr i'w cyflwyno ar 4 Gorffennaf 2024 i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol.</p>

**Status key:**

	Completed or already in place
	On target;
	Delay Expected;
	Not Applicable







# Diweddariadau'r Farchnad

## Diweddariadau'r Farchnad

	Gweithgaredd	Statws	Sylwadau
<b>Rwsia / Wcráin</b>	Effaith ar is-gronfeydd ACS sy'n dal cwmnïau Rwsiaidd	✓	Mae WMUK yn parhau i fonitro'r sefyllfa a bydd yn rhoi gwybod i'r Awdurdodau Cyfansoddol am unrhyw ddatblygiadau. Mae ein Pwyllgor Prisio Gwerth Teg yn trafod yn rheolaidd, ac mae asedau yn dal i gael eu prisio'n unol â hynny. Dim un o Gronfeydd PPC yn dal unrhyw gwmnïau o Rwsia.
<b>Y Dwyrain Canol</b>	Effaith ar is-gronfeydd ACS sy'n dal cwmnïau Israelaidd.	✓	<p>Ar hyn o bryd, mae 8 o warantau yn cael eu dal mewn cwmnïau o Israel ar draws pum is-gronfa;</p> <p>Cronfa Cyfleoedd Byd-eang - 1 cwmni gydag amlygiad o 0.01%.</p> <p>Cronfa Credyd Byd-Eang - 2 gwmni gyda 0.245%.</p> <p>Cronfa Credyd Aml-ased – 2 gwmni gyda 0.596%.</p> <p>Cronfa Enillion Absoliwt - 2 gwmni gyda 0.064%.</p> <p>Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang - 1 cwmni gyda 0.343%</p> <p>Cyfanswm gwerth tua £9.54m.</p> <p>Mae'r sefyllfa wrthi'n cael ei monitro fel rhan o broses trosolwg BAU.</p> <p>Ffigyrau o ddiwedd mis Mawrth 2024.</p>

### Status key:

	Completed or already in place
	On target;
	Delay Expected;
	Not Applicable

## Ymgysylltu Allweddol â PPC yn Ch2 ac yn y dyfodol

### Presenoldeb Waystone yng nghyfarfodydd y GS/CBLI yn y cyfnod:

- GS 21 Mai 2024

### Presenoldeb Waystone yng nghyfarfodydd y GS/CBLI yn y chwarter nesaf:

- GS 22 Gorffennaf 2024
- CBLI PPC 17 Gorffennaf 2024
- CBLI PPC 18 Medi 2024

### Presenoldeb Waystone yn yr Adolygiad Strategol o'r Berthynas:

- 17 Mai 2024

### Waystone - Presenoldeb yn y Pwyllgor Pensiynau yn y cyfnod:

- Cyfarfod Pwyllgor Pensiynau Clwyd, 19 Mehefin 2024

### Waystone - Presenoldeb yn y Pwyllgor Pensiynau yn y chwarter nesaf:

- Dim ar hyn o bryd.

### Cyfarfod Ymgysylltu â Chadeiryddion Byrddau Pensiwn PPC

- Dim ar hyn o bryd.

### Cyfarfodydd eraill yn y cyfnod

- Diweddariad gan yr Awdurdod Lletya - bob pythefnos
- Sesiwn briffio / hyfforddiant PPC - (Sesiwn Seibr ac Is-gronfeydd wedi eu rhestru) 18 Mehefin 2024
- CPLIL Trafod Hylifedd o amgylch y bwrdd -16 Mai 2024

### Cyfarfodydd eraill yn y chwarter nesaf

- Diweddariad gan yr Awdurdod Lletya - bob pythefnos
- CPLIL - Ffyniant Bro trafod o amgylch y bwrdd - 18 Medi 2024.

# WMUK Protocol Ymgysylltu - Busnes fel Arfer

Adolygu'r Berthynas Strategol	Amlder	Amcan
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dwywaith y flwyddyn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau aliniad strategol rhwng yr Awdurdod Lletyol a WMUK</li> </ul>
<b>Mynychwyr PPC</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Chris Moore</li> <li>Anthony Parnell</li> <li>Dau Swyddog Adran 151 / Dirprwy Swyddogion Adran 151</li> </ul>		<b>Mynychwyr Waystone</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Karl Midl, Pen Swyddog y Wlad, DU, a Phrif Swyddog Gweithredol</li> <li>Rachel Wheeler, Pen Swyddog Cynnyrch - Regulated Fund Solutions</li> <li>Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau</li> </ul>
Ymgysylltiad â'r CBLI	Amlder	Amcan
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Chwarterol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymgysylltu â'r CBLI ar faterion perthnasol a phosibiliadau strategol</li> </ul>
<b>Mynychwyr PPC</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cydbwyllgor Llywodraethu (CBLI)</li> </ul>		<b>Mynychwyr Waystone</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Karl Midl, Pen Swyddog y Wlad, DU a CEO / Peter Ritchie, Pennaeth Rheoli Buddsoddiadau fel bo angen</li> <li>Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau</li> <li>James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau</li> <li>Russell Investments</li> </ul>
Ymgysylltiad â'r GS	Amlder	Amcan
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Chwarterol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adnabod a chyflawni cyfleoedd i wella ac ehangu'r berthynas</li> <li>Rhoi diweddariad ar brosiectau neu faterion sy'n agored</li> <li>Adolygiad DPA Misol (Data'n cael ei gyflenwi'n chwarterol)</li> </ul>
<b>Mynychwyr PPC</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithgor Swyddogion (GS)</li> </ul> <p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tud. 35</p>		<b>Mynychwyr Waystone</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau</li> <li>Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau</li> <li>Peter Ritchie, Pennaeth Goruchwyllo Rheolwyr Buddsoddiadau</li> <li>Heidi Robinson, Rheolwr Perthnasau (yn ôl yr angen)</li> <li>Swyddogion Link yn mynychu'n ad-hoc o adrannau swyddogaethol: Treth, Cydymffurfiaeth, Cynnyrch ac ati</li> <li>Russell Investments</li> </ul>

# WMUK Protocol Ymgysylltu (parhad)...

Diweddariad yr Awdurdod Lletya	Amlder	Amcan
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bob pythefnos</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rheolaidd. Awdurdod Lletyol – WMUK i drafod beth sy'n bosib i'w gyflawni, a diweddariadau busnes</li> </ul>
<b>Mynychwyr PPC</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Anthony Parnell</li> <li>Tracey Williams</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau</li> <li>James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau</li> <li>Heidi Robinson, Rheolwr Perthnasau (yn ôl yr angen)</li> <li>Clair Baguley, Rheolwr Gwasanaeth Cleient (fel bo'r angen)</li> </ul>
Cadeiryddion Pwyllgorau'r Bwrdd Pensiwn	Amlder	Amcan
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Blynyddol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Diweddariad cyffredinol ar yr ACS a mentrau ar y gweill</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfarfodydd Pwyllgor y Cronfeydd Pensiwn unigol</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau</li> <li>James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau</li> <li>Heidi Robinson, Rheolwr Perthnasau (yn ôl yr angen)</li> <li>Russell Investments</li> </ul>
Diwrnodau Ymgysylltu â Rheolwyr		Amcan
